

Recordydd llais digidol (DVR)

Dictaffon modern yw recordydd llais digidol (DVR) Fel rheol mae ganddynt uchelseinydd a microffon(au) mewnol. Fel rheol gellir plygio **microffon allanol** i mewn, sydd, fel y Livescribe, yn cynnig recordiad o ansawdd gwell.

Mae DVR yn dda os **nod ydych yn ysgrifennu llawer o nodiadau** mewn darlithoedd neu os **nod eich llawysgrifen yn daclus iawn.**

Mae'n bwysig **cofio creu mynegai** wrth ddefnyddio DVR, gallwch wneud hyn trwy bwysu'r botwm mynegeo. Mae mynegeo'n rheolaidd (er enghraifft ar ddechrau pob sleid newydd) yn caniatáu i chi **neidio i'r pwynt perthnasol** wrth edrych dros eich nodiadau.



Dyma rai awgrymiadau gan fyfyrwyr ar sut i ddefnyddio eich DVR:

- **Gwnewch gopi wrth gefn** o'r ffeiliau'n rheolaidd, a chadw hwn ar CD neu yriant fflach.
- **Gwefrwch** eich DVR yn rheolaidd fel na fydd yn darfod yng nghanol darlith.

- Defnyddiwch system ffeilio'r recordydd. Crëwch **ffeil ar gyfer pob modiwl** fel y gallwch gadw'r ddarlith yn y modiwl cywir a mynd ati'n hawdd.
- Cofiwch fynegeio'n rheolaidd, er enghraifft **ar ddechrau pob sleid newydd**. Bydd hyn yn eich galluogi i fynd at yr adran briodol yn weddol hawdd. Fel rheol mae cyfyngiad ar nifer y mynegeion mewn un recordiad. 200 yw'r uchafswm fel rheol, er bod hyn yn wahanol gyda gwahanol fodelau.



- Tra byddwch yn mynegeio, **marciwch eich nodiadau hefyd**. Defnyddiwch dali neu symbol i'ch helpu i gysylltu'r mynegeion â'ch nodiadau'n nes ymlaen.

- Er bod DVR fel arfer yn gwneud recordiadau o ansawdd gwell na Livescribe Echo Pen, gallech eistedd yn nes at flaen y ddarlithfa a defnyddio **microffon allanol**.
- Gosodwch y microffon yn wynebu'r darlithydd a gosodwch y microffon yn wynebu'r darlithydd a gosodwch ef **ar ben rhywbeth meddal** i bylu unrhyw ddirgryniadau.
- Gellir mewnfario recordiadau DVR i Sonocent Audio Notetaker fel eich bod yn gallu trefnu eich nodiadau a'ch recordiadau'n hawdd.